- Rydym yn hyrwyddo profiad sydd yn seiliedig ar berthynas o dderbyn gofal - gofal sy'n cefnogi bywyd mwy naturiol, yn hyrwyddo dewis, rheoli, annibyniaeth ac sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol y bobl a gefnogwn.
- Gwella'r broses o wrando ac asesu - rydym yn deall 'yr hyn sy'n cyfri' ac rydym yn adnabod y person 'yn gyffredin'. Yn y cyd-destun hwn, mae cymorth sy'n canoli ar y person ond yn ymwneud â'r unigolyn ac wedi'i seilio ar anghenion unigol y person am annibyniaeth, cynhwysiant, hunaniaeth, ymlyniad a chysur.
- Ei wneud yn gartref - Rydym yn cydnabod fod "cartref" yn rhywbeth gwahanol i ni gyd a'n cartrefi yn adlewyrchu'r hyn rydym fel unigolyn. Byddwn yn cefnogi'r person i greu cartref a bod adref; beth yw cysur, sicrwydd ac unigrwydd i chi. Bydd yr ardaloedd a gaiff eu rhannu yn adlewyrchu'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u dewisiadau. Byddant yn ymwneud â phenderfynu themâu, addurno a chynllun y gofodau hyn.
- Mae gwasanaethau'n cefnogi ysbryd y person. Byddwn yn rhoi pwysigrwydd cyfartal ar les cymdeithasol ac emosiynol y person yn ogystal â'u lles corfforol.
- Mae gwasanaethau'n cefnogi teuluoedd, ffrindiau a phobl bwysig eraill i barhau i gymryd rhan - byddant yn teimlo bod ganddynt ran a'u bod eu llais yn cael ei glywed a'u hannog i hybu unigolion yn ein gofal. Byddant yn datblygu perthynas gyda staff a gweithwyr allweddol unigol ac yn cydweithio i sicrhau y caiff gofal sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer eu hanwyliaid.
- Mae'r cartref yn edrych, swnio ac yn teimlo fel lle ar gyfer unigolion i'w mynegi eu hunain, cael hwyl, gwneud sŵn, cymryd rhan, bod yn brysur, canfod lloches a phreifatrwydd ac yn ei galon beth bynnag sydd ei angen i ymateb i sut mae unrhyw berson yn teimlo ar unrhyw foment benodol.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bwyd a diod i lesiant person. Bydd amser prydau bwyd yn adeg hamddenol lle gall pobl ymlacio. Bydd bwyd a diod ar gael ac yn weledol i unigolion bob amser, fel y gall bwyd a diod gael ei fwynhau ar yr adeg sy'n gweddu i'r unigolyn. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni gofynion maeth a dietegol ychwanegol.
- Cynnal cysylltiadau gyda'u cymunedau lleol - cefnogi pobl i gynnal ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a chynhwysiant yn y gymuned leol. Daw cymunedau yn fwy cynhwysol a bydd ymwybyddiaeth o ddementia yn cynyddu. Byddwn yn edrych am gyfleoedd i gymryd rhan yn y gymuned leol drwy fyndi i mewn i'r gymuned a gwahodd grwpiau cymunedol i ymweld yn rheolaidd.
- Hierarchaeth - Gwasanaethau yn gweithio'n agos gyda phawb sy'n cymryd rhan i gefnogi'r person a'r perthnasoedd uniongyrchol sy'n bodoli sy'n cefnogi dull gweithredu llyfn ac annibynnol.
- Mae rôl ein staff yn datblygu - defnyddiwn sgiliau staff yn llawnach. Mae staff yn teimlo fod ganddynt rym, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu llesiant yn gwella. Mae staff yn cymryd rhan lawn ac yn cymryd rhan mewn datblygiadau o fewn y cartref. Caiff staff eu clustnodi mewn modd addas cyn belled ag sy'n bosibl i'r unigolion y gweithiant gyda nhw.

- Mae disgwyl i'r holl bobl sydd yn chwarae rhan yng ngofal a chymorth yr unigolion i hyrwyddo'r canlyniadau gwasanaeth uchod.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Sian Gardner Prif Reolwr ar gyfer Gwasanaethau Preswyl a Dydd ar 07815 005013

**Dyddiad Cau: 12pm ar 13eg Medi 2019**

**Gofynnir i chi nodi na allwn dderbyn CV**

Gellir llenwi ffurflenni cais ar-lein neu eu lawrlwytho drwy:  
<http://www.monmouthshire.gov.uk/home/education/jobs-and-employment/how-to-apply-for-council-jobs/>

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac ni chaiff cais a gyflwynir yn y Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Ar ôl eu llenwi, dylid dychwelyd ffurflenni cais papur i'r cyfeiriad canlynol:  
Gwasanaethau Pobl, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir,  
Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA**

Caiff penodiad i'r swydd hon ei eithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac mae'n amodol ar Wiriad Datgeliad Estynedig.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned.

Mae'r holl swyddi'n agored i'w rhannu os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu Polisi Dim Ysmygu yn y Gweithle.



## PROFFIL Y RÔL

**TEITL Y RÔL** Cynorthwydd Gofal

**RHIF ADNABOD Y SWYDD** SAS115

**ORIAU** **BANC fel sydd angen**

**GRADD** Band D [ £20,344 – 22.021 pro rata]  
gan gynnwys amser a thraean am weithio dros nos  
Amser a chwarter ar ddydd Sadwrn  
Amser a hanner ar ddydd Sul

### **ASESIAD IAITH GYMRAEG:**

(b) Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol;

### **DIOGELU:**

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

### **PWRPAS Y RÔL:**

#### **Tîm Canolfan Adnoddau Severn View .....Pwy ydym ni?**

- Rydym yn rhan o'r cyngor ac yn darparu gwasanaethau i bobl Sir Fynwy na sydd yn medru ymdopi'n llwyddiannus mwyach yn eu cartrefi eu hunain.
- Rydym yn darparu'r gwasanaethau dilynol:
- Gofal Preswyl Dementia - rhoi amgylchedd diogel a chefnogol i'r rhai sy'n byw gyda dementia.
- Gwasanaeth seibiant - seibiant preswyl tymor byr i alluogi gofalwyr i gael hoe.
- Gwasanaethau Ail-alluogi - cefnogi pobl yn y tymor byr i'w helpu pobl i adennill annibyniaeth a sicrhau y caiff gwasanaethau eu teilwra i anghenion unigol os oes eu hangen yn yr hirdymor.
- Gwasanaethau Gofal Dydd - Rhoi cyfleoedd cymdeithasol a rhoi rhywbeth i'w wneud i bobl hŷn sy'n byw yn y gymuned. Gall hyn fod drwy fynychu ein darpariaeth Gwasanaethau Dydd mewnol neu eu cynorthwyo i wneud cysylltiadau eraill o fewn y gymuned a fyddai o ddiddordeb iddynt.

## Ein Pwrpas:

- Rydym yn hyrwyddo profiad sydd yn seiliedig ar berthynas o dderbyn gofal - gofal sy'n cefnogi bywyd mwy naturiol, yn hyrwyddo dewis, rheoli, annibyniaeth ac sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol y bobl a gefnogwn.
- Gwella'r broses o wrando ac asesu - rydym yn deall 'yr hyn sy'n cyfri' ac rydym yn adnabod y person 'yn gyffredin'. Yn y cyd-destun hwn, mae cymorth sy'n canoli ar y person ond yn ymwneud â'r unigolyn ac wedi'i seilio ar anghenion unigol y person am annibyniaeth, cynhwysiant, hunaniaeth, ymlyniad a chysur.
- Ei wneud yn gartref - Rydym yn cydnabod fod "cartref" yn rhywbeth gwahanol i ni gyd a'n cartrefi yn adlewyrchu'r hyn rydym fel unigolyn. Byddwn yn cefnogi'r person i greu cartref a bod adref; beth yw cysur, sicrwydd ac unigrwydd i chi. Bydd yr ardaloedd a gaiff eu rhannu yn adlewyrchu'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u dewisiadau. Byddant yn ymwneud â phenderfynu themâu, addurno a chynllun y gofodau hyn.
- Mae gwasanaethau'n cefnogi ysbryd y person. Byddwn yn rhoi pwysigrwydd cyfartal ar les cymdeithasol ac emosiynol y person yn ogystal â'u lles corfforol.
- Mae gwasanaethau'n cefnogi teuluoedd, ffrindiau a phobl bwysig eraill i barhau i gymryd rhan - byddant yn teimlo bod ganddynt ran a'u bod eu llais yn cael ei glywed a'u hannog i hybu unigolion yn ein gofal. Byddant yn datblygu perthynas gyda staff a gweithwyr allweddol unigol ac yn cydweithio i sicrhau y caiff gofal sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer eu hanwyliaid.
- Mae'r cartref yn edrych, swnio ac yn teimlo fel lle ar gyfer unigolion i'w mynegi eu hunain, cael hwyl, gwneud sŵn, cymryd rhan, bod yn brysur, canfod lloches a phreifatrwydd ac yn ei galon beth bynnag sydd ei angen i ymateb i sut mae unrhyw berson yn teimlo ar unrhyw foment benodol.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bwyd a diod i lesiant person. Bydd amser prydau bwyd yn adeg hamddenol lle gall pobl ymlacio. Bydd bwyd a diod ar gael ac yn weledol i unigolion bob amser, fel y gall bwyd a diod gael ei fwynhau ar yr adeg sy'n gweddu i'r unigolyn. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni gofynion maeth a dietegol ychwanegol.
- Cynnal cysylltiadau gyda'u cymunedau lleol - cefnogi pobl i gynnal ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a chynhwysiant yn y gymuned leol. Daw cymunedau yn fwy cynhwysol a bydd ymwybyddiaeth o ddementia yn cynyddu. Byddwn yn edrych am gyfleoedd i gymryd rhan yn y gymuned leol drwy fyndi i mewn i'r gymuned a gwahodd grwpiau cymunedol i ymweld yn rheolaidd.
- Hierarchaeth - Gwasanaethau yn gweithio'n agos gyda phawb sy'n cymryd rhan i gefnogi'r person a'r perthnasoedd uniongyrchol sy'n bodoli sy'n cefnogi dull gweithredu llyfn ac annibynnol.
- Mae rôl ein staff yn datblygu - defnyddiwn sgiliau staff yn llawnach. Mae staff yn teimlo fod ganddynt rym, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu llesiant yn gwella. Mae staff yn cymryd rhan lawn ac yn cymryd rhan mewn datblygiadau o fewn y cartref. Caiff staff eu cyfateb yn addas cyn belled ag sy'n bosibl i'r unigolion y gweithiant gyda nhw.

- Mae disgwyl i'r holl bobl sydd yn chwarae rhan yng ngofal a chymorth yr unigolion i hyrwyddo'r canlyniadau gwasanaeth.

### **Pwrpas y rôl hon:**

Sicrhau ein bod yn meddu ar ddigon o amser staff banc er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gofala safon uchel o wasanaeth pan fydd staff parhaol eraill ar wyliau neu'n absennol.

### **Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl**

#### **Dyma'r hyn yr wyf yn disgwyl o'r Rôl hon:**

#### **Rwyf am i chi:-**

- Rwyf am i chi ddod â'ch hun i'r rôl hon; eich personoliaeth, gwên fawr ac elfen o hwyl. Rwyf angen i chi ddeall ein bod yn disgwyl o leiaf 100% o ran ymdoddiad.
- I weithio gyda phobl mewn ffordd sydd yn dangos ffocws parhaus ar ganolbwyntio ar unigolion a pherthnasau. Bydd angen i chi dreulio amser yn dod i 'nabod y bobl yr ydym yn eu cefnogi ac yn datblygu perthynas sydd yn cefnogi eich rôl fel y 'gweithiwr proffesiynol sydd wedi ei atodi' yn hytrach na rhywun sydd na sydd 'wedi ei atodi'.
- Yn weithiwr allweddol ar gyfer rhai o'r bobl yr ydym yn cefnogi, gan arwain ar weithio ag eraill sydd hefyd yn eu cefnogi.
- Cefnogi pobl i wneud cymaint ag sydd yn bosib dros eu hunain, gan weithio mewn ffordd sydd yn hyrwyddo gallu a'n ymatal rhag meithrin dibyniaeth.
- Darparu gofal a chymorth i bobl sydd yn sensitif bob tro, yn gyfrinachol ac yn cynnal urddas y person.
- Yn sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau yn y ganolfan yn edrych, swnio ac yn teimlo eu bod yn ffocysu ar yr unigolyn; yn eu gwahodd, yn fyw, yn actif ac yn eu hysgogi.
- Gweithio i ddiogelu unigolion o fewn canllawiau POVA.
- Helpu pobl gyda phob agwedd o fywyd pob dydd. Mae hyn yn cynnwys darparu gofal personol mewn ffordd sydd yn ffocysu ar deimladau'r person ac mewn ffordd sydd yn trawsnewid tasgau yn gamau cymdeithasol.
- Gweithio gyda phobl, a hynny'n seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o'u hanghenion a'u dymuniadau fel sydd wedi eu disgrifio gan y bobl eu hunain. Treulio amser yn gwrandao ac yn ymgysylltu gyda phob person mewn ffordd sydd yn ymateb i bwy ydynt.
- Yn cefnogi'r person i deimlo ei fod adref: yn deall bod adref yn wahanol i bawb ohonom (llanast, taclusrwydd ayyb...) ac angen adlewyrchu pwy ydym fel unigolyn. At hyn, bydd eich rôl yn cynnwys cefnogi gweithgareddau yn y cartref / safle.
- Rhoi meddyginiaeth i bobl yr ydym yn eu cefnogi yn unol â chanllawiau'r Meddyg Teulu, polisi CSF ac anghenion yr unigolion.
- Cefnogi pobl i gadw mewn cysylltiad, ac ail-gysylltu, gyda'u ffrindiau, teulu a'r gymunedol leol. Bydd hyn yn cynnwys darparu cymorth corfforol uniongyrchol a chymorth emosiynol er mwyn cyflawni hyn.
- Gweithio gyda phobl mewn modd positif sydd yn sicrhau fod yr holl elfennau o ofal yn cael eu dileu ac nid oes ymdeimlad o 'ni' a 'nhw'
- Deall pwysigrwydd bwyd a diod ym mywydau'r bobl gan ystyried cyfnodau bwyta yn gyfle i eistedd a bwyta gyda'r person sydd yn cael ei gefnogi.

- Gweithio mewn ffordd sydd yn cefnogi'r person i wneud pethau ar hap.
- Darparu cymorth uniongyrchol i'r gofalmwyr 'anffurfiol' sydd hefyd yn cefnogi'r person. Byddwch yn deall y pwysigrwydd o gefnogi teulu, ffrindiau ac eraill i barhau i gymryd rhan yng ngofal y person.
- Gweithredu polisïau a gweithdrefnau yr awdurdod.
- Yn medru defnyddio Technoleg Gwybodaeth. Bydd angen i chi gynnal cofnodion electronig ar gyfer yr unigolion yr ydych yn eu cefnogi
- Gweithio yn hyblyg gyda phobl. Bydd angen rhywun sydd ar gael i weithio patrwm shifft, ar benwythnosau a gŵyl y banc. Yn hyblyg ac yn newid pan fydd angen er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth.
- Bydd angen i chi fod yn dda wrth gyfathrebu. Bydd angen i chi weithio yn agos gyda phobl, yn dadansoddi ac yn deall yr ystod o ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu. Bydd angen i chi i roi gwybod i mi, drwy gyfrwng arsylwi a thrafodaethau, am unrhyw bryderon ynghylch iechyd a diogelwch y bobl yr ydym yn cefnogi.
- Yn medru adeiladu perthynas waith effeithiol ag ystod eang o bobl.
- Yn cwblhau dyletswyddau domestig ysgafn a gwiriadau cynnal a chadw e.e. bocsys cymorth cyntaf, archwiliadau, ffeiliau, glanhau a golchi dillad
- Cynnal gwiriadau diogelwch bob shifft gan sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel.
- Yn medru cymryd camau priodol mewn argyfwng cyn bod yr arweinydd y tim yn cyrraedd; mae hyn yn cynnwys galw am y frigâd dân a rhoi cymorth cyntaf.
- Aros yn bwyllog mewn argyfwng ac asesu'r angen i alw'r swyddog ar ddyletswydd sydd yn cysgu.
- Bydd angen i chi ofyn am (a darparu) cymorth gan eich cydweithwyr er mwyn goresgyn y rhwystrau sydd ynghlwm wrth y rôl. Bydd angen i chi fod yn berson sy'n canolbwyntio ar eich cydweithwyr.
- Rwyf angen rhywun sydd yr un mor gartrefol yn gweithio fel rhan o dîm ag ydyw ar ben ei hun.
- Rhywun sydd yn medru adlewyrchu'n barhaus ar ei ddatblygiad ymarferol a phersonol er mwyn canfod lle y mae modd gwneud pethau yn wahanol neu'n well.
- Rwyf angen i chi ddeall y pwysigrwydd o fynychu cyfarfodydd goruchwyllo a 1:1 gyda mi, yn sicrhau eich bod yn manteisio ar bob cyfle i rannu, dysgu a thyfu yn eich rôl. Rwyf angen i chi ddeall pwysigrwydd, a chymryd cyfrifoldeb, am ddysgu a datblygu eich hun ynghyd ag ymroi i'r holl gyfleoedd hyfforddi sydd yn agored i chi.
- Rwyf angen i chi gefnogi iechyd a diogelwch y bobl yr ydych yn gweithio gyda hwy a chi'ch hun.
- Rhywun sydd â syniadau, yn agored i newid a ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, byddwch angen dilyn gweithdrefnau penodol ac sydd wedi eu cytuno o ran iechyd a diogelwch, symud, trin a meddyginiaeth
- Rwyf angen i chi gwblhau gwaith papur sydd yn glir, yn gywrain ac ar amser.

### **Dyma'r hyn y mae modd i ni gynnig i chi:**

- Ymdeimlad o foddhad a balchder .
- Cyflog gwych gydag arian ychwanegol ar y penwythnos a gŵyl y banc
- Pensiwn
- Tîm arwain ymroddedig
- Hyfforddiant gwych

## Beth arall sydd angen i chi wybod.....Dyma Werthoedd Cyngor Fynwy:

- Tryloywder:** Rydym am geisio bod yn agored ac onest er mwyn datblygu perthynas lle y mae pobl yn medru ymddiried yn ei gilydd.
- Tegwch:** Rydym am geisio cynnig dewis teg, cyfleoedd a phrofiad ac i ddod yn fudiad lle y mae'r naill yn parchu'r llall.
- Hyblygrwydd:** Rydym am geisio bod yn hyblyg wrth feddwl a gweithredu er mwyn dod yn fudiad effeithiol ac effeithlon.
- Gwaith tîm:** Rydym am geisio gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

### Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymddwyn bob tro mewn ffordd sydd yn gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd perthnasol ac yn eu hymddygiad cyffredinol

Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi Dim Ysmygu yn y Gweithle ac mae disgwyl i'r holl weithwyr i gydymffurfio gyda hyn.

### Manyleb Person

**Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir am y rôl? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos:-**

- **Mae hon yn rôl gyffrous a hynod werth chweil, ond er mwyn cefnogi pobl yn unol â phwy ydynt a'r hyn sydd yn bwysig iddynt, bydd angen i chi feddu ar y canlynol:**

Nid yw profiad cyffredinol yn angenrheidiol ond byddwch yn rhywun sydd yn medru cynnig tystiolaeth amlwg o'ch ymroddiad, brwdfrydedd a'ch natur ofalgar. Mae gofalu yn ymwneud â chynorthwyo rhywun i fyw bywyd da a naturiol. Mae hyn yn golygu bod y cymorth yr ydym yn darparu yn ffocysu bob tro ar sut y mae'r person yn teimlo....

<b>Perthynas</b>	Byddwch yn deall pa mor bwysig yw perthnasau, ac er mwyn cefnogi pobl, rydym angen 'nabod y person, eu profiadau, eu bywyd a phwy ydynt erbyn hyn.
------------------	--



<b>Galluogi</b>	Byddwch yn medru gweithio mewn ffordd sydd yn cynnwys y person ac yn eu caniatáu i gymryd rhan lawn yn eu bywydau a byddwch yn cefnogi pobl i wneud cymaint ag sydd yn bosib dros eu hunain. Byddwch yn deall bod angen i ni gymryd cam yn ôl weithiau a chaniatáu i bobl i wneud gymaint ag sydd yn bosib dros eu hunain.
<b>Dull</b>	Byddwch yn deall bod angen i ni gymryd cam yn ôl weithiau a chaniatáu i bobl i wneud gymaint ag sydd yn bosib dros eu hunain.
<b>Argaeledd a Hyblygrwydd</b>	Bydd angen i chi weithio ar adegau o'r dydd pan fydd pobl angen cymorth a byddwch yn deall y gall hyn newid ar unrhyw ddiwrnod, a hynny'n ddibynnol ar sut y mae'r person yn teimlo. Mae hyn yn golygu ffocysu ar yr unigolyn – yn hytrach nag ar unrhyw drefn
<b>Hunan</b>	Rydych yn rhywun sydd yn gysurus gyda chi'ch hun yn y gwaith ac rydych yn hunanymwybodol ac yn agored.
<b>Teimlo</b>	Byddwch yn dwym o ran emosiwn, yn cynnig agosatrwydd ac empathi i bob unigol.
<b>Gyda'n gilydd</b>	Rydych yn rhywun sydd yn medru bod yn ffrind i'r bobl yr ydym yn eu cefnogi; dim 'ni' a 'nhw'.
<b>Ysbrydoli</b>	Byddwch yn angerddol ac yn bositif ac yn medru cysylltu gyda phobl mewn ffordd sydd yn gwneud gwahaniaeth.
<b>Meithrin</b>	Byddwch yn rhywun sydd yn medru rhoi cysur, sicrwydd ac ymdeimlad o berthyn.
<b>Derbyn</b>	Byddwch yn medru bod yn bositif am realiti person ac yn deall y ffaith fod teimladau yn medru cael eu dangos drwy gyfrwng gweithredoedd neu eiriau.
<b>Cefnogi</b>	Byddwch yn barod i fynegi eich emosiynau eich hun a chefnogi eraill gyda'u rhai hwy.
<b>Tyfu</b>	Bydd angen i fod yn agored i ddysgu, herio ac adlewyrchu ar eich perfformiad
<b>Cymwysterau</b>	Nid oes angen cymhwyster er mwyn gwneud cais am y rôl hon ond bydd rhaid eich bod yn barod i fynd ar y cwrs QCF Lefel 2 mewn Gofal.

- **Sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol.**

Efallai y bydd angen i chi ddysgu neu wella eich sgiliau drwy fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg i'r staff sydd yn cael ei ariannu gan y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei weithredu os yw'r angen am sgiliau iaith Gymraeg yn dod i'r amlwg fel rhan o'r rôl.

**Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Sian Gardner Prif Reolwr ar gyfer Gwasanaethau Preswyl a Dydd ar 07815 005013**

**Dyddiad Cau: 12pm ar 13eg Medi 2019**

**FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG**

**LEFEL 1**

*Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir.</li> <li>➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.</li> <li>➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.</li> </ul>

**LEFEL 2**

*Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol</li> <li>➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion.</li> <li>➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg.</li> <li>➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod</li> <li>➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad</li> </ul>

**LEFEL 3**

*Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgyrsiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol.</li> <li>➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml.</li> <li>➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd.</li> <li>➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyddestun os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</li> <li>➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.</li> </ul>



➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.

#### LEFEL 4

*Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith.</li> <li>➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen.</li> <li>➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol.</li> <li>➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion.</li> <li>➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur.</li> <li>➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol.</li> </ul>	➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

#### LEFEL 5

*Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffononellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.*

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr.</li> <li>➤ Gall ddeall amwysedd a nawys iaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth</li> <li>➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol.</li> <li>➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen.</li> <li>➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.</li> </ul>